# Ysgrifennu cynnig llyfr i Calon

Isod ceir arweiniad ar yr wybodaeth y byddai'n fuddiol i ni ei derbyn mewn cynnig llyfr masnach er mwyn i ni allu penderfynu a yw'n iawn ar gyfer llyfrnod Calon. Gallwch ddefnyddio'r penawdau isod i strwythuro eich cynnig, neu mae croeso i chi eu defnyddio fel canllaw ac ysgrifennu mewn fformat arall os credwch y byddai hynny'n gweddu'n well i'ch llyfr. Edrychwn ymlaen at ddarllen mwy.

Cyflwynwch eich cynnig i katherine.venn@gwasg.cymru.ac.uk.

## Teitl ac isdeitl

Mae teitl ac isdeitl cryf yn ein helpu i wybod beth yw pwnc eich llyfr. Gallai hyn esblygu wrth i chi ysgrifennu, sy'n gwbl dderbyniol, ond mae'n helpu i osod naws y cynnig ac yn dal sylw.

**Awgrym defnyddiol:** Ystyriwch deitl sy'n tynnu sylw gydag isdeitl mwy esboniadol

## Enw'r Awdur/Golygydd

Dim ond eich enw/au sydd ei angen ar hyn o bryd

D.S. Os ydych chi'n cynllunio blodeugerdd neu ddetholiad rhestrwch unrhyw gyfranwyr (wedi'u cadarnhau neu obeithiol) dan 'cynnwys a strwythur'.

## Crynodeb

Erbyn diwedd y crynodeb, dylem ni wybod beth fydd eich llyfr yn ei wneud a pham y dylem ni ei gyhoeddi.

- Beth (neu pwy) yw testun eich llyfr?
- Beth sy'n arbennig ac yn unigryw amdano?
- Beth yw ei themâu allweddol neu brif ddamcaniaeth?
- Os yw am rywun neu rywle, eglurwch pam eu bod yn bwysig – pam ddylem ni boeni amdanynt?
- (Os nad yw'n glir o'r uchod) Beth yw arwyddocâd Cymru i'r stori? Dywedwch pam fod y llyfr hwn yn berffaith i'r llyfrnod.
- Pa mor hir ydych chi'n meddwl fydd y llyfr (mewn geiriau)? Awgrym defnyddiol: Rydym ni'n hapus i dderbyn llawysgrifau o sawl hyd gwahanol, ond byddem yn disgwyl i'r mwyafrif fod rhwng 40,000 a 90,000 o eiriau.

## Cynulleidfa/Marchnad

Pwy ydych chi'n meddwl yw eich darllenydd? Does dim angen i chi fod yn benodol ond rhowch syniad o'r hyn maent yn hoffi ei wneud a beth arall maent yn ei ddarllen/gwylio/gwrando arno. Ydy'r llyfr wedi'i anelu at grŵp oedran penodol? Ydych chi'n meddwl bod cynulleidfa ryngwladol a phwy/pam?

## Teitlau cystadleuol (tebyg)

Pa lyfrau sy'n debyg i'r llyfr rydych chi am ei ysgrifennu? Does dim rhaid iddynt fod ar yr un pwnc, ond gallent fod â chynulleidfa debyg neu fod ag arddull/strwythur tebyg. Os oes llyfrau eraill ar gael ar y pwnc, sut mae eich llyfr chi'n wahanol?

## Amdanoch chi

Pam mai chi yw'r person iawn i ysgrifennu'r llyfr hwn? Does dim angen bywgraffiad hir, ond mae'n ddefnyddiol i ni wybod am eich profiad blaenorol, unrhyw arbenigedd perthnasol yn y maes, cyhoeddiadau neu ysgrifennu blaenorol yn y maes ac unrhyw beth arall sy'n golygu mai chi yw'r awdur perffaith ar gyfer y llyfr hwn.

## Cynnwys a strwythur

Amlinelliad fesul pennod, sy'n rhoi ymdeimlad o'r pynciau a fyddai'n cael eu cynnwys ym mhob adran neu bennod. Ni fydd disgwyl i chi gadw at hwn a byddwn yn hapus i'w drafod ymhellach, ond mae'n rhoi syniad i ni o'r cynnwys allweddol a'r stori y bydd eich llyfr yn ei hadrodd.

Os yw eich llyfr yn fwy personol/atgofion neu'n arbrofol o ran arddull, cynhwyswch o leiaf un bennod sampl i roi ymdeimlad i ni o naws y llyfr.

Os nad yw eich llyfr yn un o'r uchod ac nad oes gennych chi bennod sampl, cynhwyswch hefyd enghreifftiau o ysgrifennu arall gennych chi ar gyfer cynulleidfa debyg – mae dolenni at wefannau'n dderbyniol yn ogystal â dogfennau ffisegol.

## Darluniau

Ydych chi'n dychmygu y bydd gan y llyfr ddarluniau? Pam a beth fyddai'r rhain yn ei ychwanegu (mae darluniau fel arfer yn costio arian ac felly mae angen diben clir iddynt yn y testun)?

A fyddai'r rhain yn lluniadau llinell, ffotograffau, cartwnau, graffiau, ffeithluniau? Cyfuniad? A fyddent yn ddu a gwyn neu'n lliw? Tua faint fyddai ei angen?

Gallwn helpu i gomisiynu'r rhain a dod o hyd i'r darluniwr iawn ar eu cyfer, ond mae'n ddefnyddiol cael syniad o'r hyn rydych chi'n meddwl sydd ei angen er mwyn i'r llyfr weithio.

## Cyhoeddusrwydd a marchnata

Sut fyddech chi'n ein helpu i roi gwybod i bobl am y llyfr? Sut allai eich cysylltiadau a'ch rhwydweithiau helpu i'w werthu?

Gwybodaeth ddefnyddiol i'w chynnwys: manylion dilynwyr cyfryngau cymdeithasol/unrhyw gyrhaeddiad ar-lein arall (tanysgrifwyr i'ch cylchlythyr os oes gennych chi un er enghraifft); cysylltiadau yn y wasg; cysylltiadau rhyngwladol; llefydd ble'r ydych chi'n siarad; unrhyw gysylltiadau â chymdeithasau neu gyrff masnach perthnasol; cysylltiadau â siopau llyfrau ac ati os ydych chi eisoes wedi cyhoeddi llyfr.

## Dyddiad cyhoeddi

Pa mor hir fyddai ei angen arnoch chi i ysgrifennu'r llyfr? Oes unrhyw ben-blwyddi allweddol, diwrnodau ymwybyddiaeth ac ati y byddai'n ddefnyddiol i gyd-fynd â chyhoeddi'r llyfr?

## Cefnogwyr neu adolygwyr posibl

Pa ddylanwadwyr neu ffigurau allweddol yn y maes a allai ddarparu cefnogaeth cyn cyhoeddi neu adolygiadau i'r llyfr?

## Unrhyw wybodaeth arall

Hoffech chi rannu unrhyw beth arall am eich llyfr?